**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**MAWRTH 26$^{AIN}$ 2025 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YNG NGWYTHERIN**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Euros Williams (EUW), John Harris (JH), & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Myrddin Davies (MGD), Jane Roberts (JR), Sara Thomas (ST) & Austin Roberts (AR)

**1.4** Absennol: Gwydion Jones (GJ)

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION CHWEFROR 19$^{EG}$ 2025 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan JH ac eilwyd gan AV.

## 4 MATERION YN CODI

**4.1** Dywedodd DR fod to'r Siop Fach wedi ei atgyweirio a'r conau wedi mynd.

**4.2** Cyfeiriodd AV at eitem 5.2 ble y gwnaeth bawb gymeradwyo'r cais cyn belled nad oedd datblygiad arall yn digwydd ar y safle ond dywedodd bod cais arall wedi dod i law erbyn hyn. Atebodd CR fod y cyngor wedi ei gymeradwyo ond bod llawer o amodau.

**4.4** Fan ym Mhandy Tudur - mae'r sefyllfa dal i barhau ac mae perchennog y fan wedi gaddo ei symud o fewn 3 wythnos. Wedi i'r amser basio fe gysylltodd CWG gyda pherchennog y safle a dywedwyd nad oedd y fan wedi ei symud a bod perchennog yn gwrthod ei symud unwaith eto. Dywedodd CR am gysylltu gydag Emlyn Felin i drafod y mater.

**4.5** Cafwyd cais yn ystod y mis am lythyr i gefnogi cais grant Amgueddfa Syr Henry Jones. Wedi i nifer o gynghorwyr ymateb yn dweud eu bod dymuno gyrru'r llythyr cefnogi yna fe luniwyd un gan CWG a'i yrru i Shirley Williams.

**4.6** Cyfarfod cyhoeddus 15/5/25 - Penderfynwyd i lunio poster yn hysbysebu'r digwyddiad a thaflenni ymateb i rai nad sy'n gallu bod yn bresennol. Bydd y posteri yn cael eu gosod ar y wefan, *facebook*, hysbysfyrddau lleol, siop, stag, arhosfan bws wrth ymyl siop, y Gadlas ac hysbysebu yn ystod gwasanaethau yn capeli ac eglwysi yn ogystal a Class Dojo. Dywedwyd hefyd y gellir rhoi copiau papur o'r taflenni ymateb yn y siop a'r stag. Penderfynwyd roi dyddiad cau ar gyfer sylwadau yn Mai 15fed i gyd-fynd a'r cyfarfod agored. Bydd CR yn cadeirio a CWG i gymryd cofnodion.
Dywedodd JH y bod modd cysylltu gyda mudiad sydd wedi gwneud hyn yn Sir Fôn i weld pa grantiau sydd ar gael a dywedodd bod mantais i gael cae chwarae 2G yn hytrach na 4G gan fod 2G ar gyfer pob chwaraeon a 4G ond yn addas ar gyfer pêl-droed.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

**5.1** Cais Rhif 0/52340 1 Tai Newyddion, Bryn Y Clochydd, Gwytherin LL22 8UT
Pawb yn ei wrthod ar y sail nad yw'n cyd-fynd a'r rheolau a'i fod mewn ardal gadwraeth. Trafodwyd ei fod yn edrych yn ôl y dogfennau nad yw am gael ei leoli yn y lle cywir.

**5.2** Cais Rhif 0/52343 Plas yn Trofarth, Llangernyw LL22 8RD
Pawb yn cymeradwyo.

**5.3** Cais Rhif 0/52349 Pen Y Ffridd, Waterloo, Llangernyw LL22 8RH
Roedd CWG wedi gyrru sylwadau yn barod gan nad oedd bosib ymestyn y dyddiad cau y tro hwn ac roedd eu hangen erbyn Mawrth 19eg. Roedd y cynghorwyr yn ei gefnogi cyn belled â'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y bwriad a ymgeisir amdano yn unig.

**5.4** Cais Rhif 0/52355 1 Pentre Cottages, Tyddyn Dicws, Gwytherin LL22 8UU
Pawb yn cymeradwyo.

**6 MATERION CYNGOR**

**6.1** Rheoliadau Ariannol - mae CWG wedi dilyn templad Un Llais a'i addasu i fod yn berthnasol i Gyngor Cymuned Llangernyw. Yna, mae is-grŵp yn cynnwys CR, DR ac EW wedi cwrdd i'w trafod ymhellach. Penderfynwyd i CWG eu gyrru i bawb iddynt weld y drafft terfynol ac os yn hapus yna gellir eu pasio yn y pwyllgor nesaf.

**6.2** Adrodd Adran 6 - Bioamrywiaeth - bydd cyflwyniad am hwn ar 14/4/25 am 7. Gofynnwyd i CWG yrru'r wybodaeth ymlaen i AV hefyd.

**6.2** Cyfnewidfa hadau a phlanhigion - cafwyd cais yn ystod y mis gan Amgueddfa Syr Henry Jones i gynnal digwyddiad ar y cyd. Dywedodd EW ei bod yn cytuno i'w wneud a'i fod yn cyd-fynd gyda chynllun Bioamrywiaeth y cyngor cymuned. Dywedodd DR ei fod yn well cynnal y digwyddiad yn y cwm er mwyn hybu'r amgueddfa. Penderfynwyd i'w gynnal ar 26/4/25 o 11 tan 1. Dywedwyd os yw hi'n bwrw yna gellir ei ail-leoli i'r Eglwys a dywedodd AV y byddai'n gofyn caniatâd am hyn gan Gwenda Cooper. Bydd CWG yn trefnu'r digwyddiad ar y cyd gyda Celia. Cytunodd DR i wneud paned a dywedwyd y byddai'r cyngor cymuned yn talu am de, coffi, siwgr, llefrith, bisgedi fel cyfraniad.

**6.3** Hysbysiad Archwiliad gan Archwilio Cymru ar gyfer 2024-25 wedi ei dderbyn.

**7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

**7.1** Pont Llangernyw - gwaith atgyweirio wedi ei wneud ddoe.
**7.2** Pont Pandy Tudur - cefais sgwrs ffon y bore 'ma hefo prif beiriannydd y Cyngor Sir. Mae o wedi fy sicrhau y bydd y bont yn cael ei atgyweirio eleni a hynny yn ystod yr haf gobeithiaf.
**7.3** Llwybr heibio'r bridge - wedi cael gair hefo Geraint Fferm ynglŷn â symud y ffens i'r man cywir .
**7.4** Llwybr Hafodunos - wedi derbyn cwyn ynglŷn â choed ar y llwybr ac wedi pasio'r cwyn ymlaen at y cyngor sir. Dywedodd CR y byddai'n trafod hyn ymhellach gydag AR gan efallai cael Kevin i'w torri.
**7.5** Cais i batsio rhannau o'r A548 wedi mynd gerbron y Cabinet.

**8 MATERION ARIANNOL**

**8.1** Anfoneb eithriadol gan Un Llais Cymru - pawb yn cytuno i dalu.
**8.2** Wedi talu cyfraniad blynyddol am gostau trydan diffibrilydd tu allan i'r Stag - £25.
**8.3** Neges gan y *Kids Cancer Charity* yn gofyn am gyfraniad - penderfynu peidio cyfrannu.
**8.4** Neges gan *Marie Curie Daffodil Appeal* yn gofyn am gyfraniad - penderfynu peidio cyfrannu.
**8.5** Wedi derbyn anfoneb ar gyfer aelodaeth o Un Llais am y flwyddyn 2025-26 o £209 - pawb yn cytuno i ymaelodi eto eleni.
**8.6** Llythyr gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy yn gofyn am gyfraniad - penderfynwyd i gyfrannu £30
**8.7** Gofynnodd DR am y sefyllfa TAW hanesyddol sydd angen ei hawlio. Dywedodd CR y byddai'n ffonio Iona eto. Trafodwyd bod angen hawlio TAW o fewn 4 mlynedd ar gyfer nwyddau a 6 mis ar gyfer gwasanaethau. Gofynnwyd i CWG i yrru rhestr o eitemau yr oedd wedi gofyn amdanynt gan Iona ar gyfer awdit y llynedd i CR fel ei fod yn gofyn amdanyn nhw eto.

**9 GOHEBIAETH**

Wedi eu gyrru ymlaen i bawb er gwybodaeth:

**9.1** Cyllideb y Cyngor 2025/26
**9.2** Dadansoddiad o'r ffi ar gyfer yr anfoneb eithriadol gan Archwilio Cymru
**9.3** Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025
**9.4** Gwybodaeth am ddigwyddiadau ar-lein Tîm Cymorth Argyfwng Costau Byw Un Llais
**9.5** Penderfyniad yr Arolygydd ar yr apêl caniatâd cynllunio CAS-03601-N1M0X2 Pen Y Bryn Wind Turbine, Pen Y Bryn Trofarth, Betws Yn Rhos, LL22 8BE 0/51012 - dywedodd CR ei fod wedi ei gymeradwyo rwan gan Lywodraeth Cymru
**9.6** Penderfyniadau Terfynol Arolwg y Senedd
**9.7** Dyddiadau Hyfforddiant Un Llais Cymru Mawrth - Mehefin 2025
**9.8** Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol 2025
**9.9** Canllawiau Digidol
**9.10** Newyddion Cyffrous: Lansio Gwefan Newydd Un Llais Cymru!

**10 BILIAU**

**10.1** Bil cyfieithu Enlli - £95
Pawb yn cytuno i dalu'r uchod.

**11 MATERION LLEOL**

**AV** Gofynnodd os oes eisiau gadael y tamaid yng ngwaelod Eglwys Llangernyw heb ei dorri eto eleni? Dywedwyd bod Iwan Edwards yn meddwl ei fod yn syniad da iawn i adael darn fel yna, wedi gweld 3 math o löynbyw yno. Pawb yn cytuno i gadw'r darn ar gyfer bywyd gwyllt. Hefyd ychwanegodd bod y Clwb Garddio wedi ei gynnal yn ystod y mis a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Tony Hickinbottom.

**DR** Gofynnodd os oedd yn bosib cael ychwaneg o arwyddion terfyn cyflymder 20 m.y.a drwy Langernyw? Dywedodd EW bod Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl wedi cael camerâu adnabod rhifau cofrestru cerbydau. Ychwanegodd AV bod arwyddion i rybuddio eich bod yn mynd i mewn i ardal 20 m.y.a. yn Llansannan. Atebodd CR y gellir gofyn wrth y cyngor am ganiatâd i roi'r arwyddion ar byst y cyngor yn y pentref a dywedodd EUW bod arwyddion plant yn mynd i gael fwy o ddylanwad e.e. cael yr ysgol i greu rhai. Ychwanegodd ei bod wedi methu cael yr holl baent i ffwrdd o'r arhosfan bws a dywedodd CWG y byddai'n mynd yno i helpu. Yn ogystal â hyn dywedodd bod llawer yn gofyn pryd mae'r llwybr cerdded am fod yn agored.

**EUW** Dywedodd bod Emrys Tyddyn Uchaf yn dweud nad ydi'r tacsi ysgol yn dod i nôl y plant drwy ffordd Hendre oherwydd iechyd a diogelwch. Roedd plant eraill ar yr un ffordd yn arfer cael tacsi ond nid yw'r bachgen yma erioed wedi. Pasiwyd i CWG i basio mater ymlaen i AR.

**EW** Dywedodd nad yw ochrau'r ffyrdd yn cael eu glanhau dim mwy, yn arbennig ffordd Gwytherin am Bant Cefn. Penderfynwyd i CWG ofyn i AR os oes posib cael *sweeper* o gwmpas yr ardal.

**12 CYFARFOD NESAF**

Ebrill 30[ain] 2025 yn Mhandy Tudur
Cyfarfod yn dod i ben am 21:10
Cymerwyd y cofnodion gan CWG